Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Nwyddau: **Siwgwr**

Siwgwr, Craft Aid, Mauritius
Kasinthula, Malawi

1. Math o laswellt yw cansen siwgwr a dyma ffynhonnell 70% o siwgwr y byd. Mae'r siwgwr yn cael ei gymryd o goesau'r gansen. Mae'r cnwd angen llawer iawn o haul a llawer iawn o ddŵr. Am lawer o ganrifoedd roedd pobl Asia yn cnoi darnau o'r gansen fel byrbryd - yn ddiweddarach y meddyliodd pobl am dynnu'r siwgwr o'r planhigyn!

2. Mae'r gansen siwgwr yn cael ei chynaeafu drwy dorri'r coesau ond gadael y gwreiddiau fel ei fod yn tyfu eto'r flwyddyn ganlynol. Fel arfer bydd yn cael ei chynaeafu yn ystod y tymor sych ac mae hyd y cynhaeaf yn amrywio rhwng dau fis a hanner i un mis ar ddeg.

3. Cam cyntaf y broses yw tynnu'r sudd o'r gansen. Bydd y gansen yn cael ei gwasgu gan roleri melinau mawr (fel mangl neu wasgwr dillad) mewn ffatrïoedd. Bydd llawer o'r dŵr yn diflannu drwy anweddu gan dewychu'r sudd yn syryp. Yna, rhoddir y syryp mewn padell fawr iawn i'w ferwi. Bydd hyd yn oed ragor o ddŵr yn cael ei ferwi i ffwrdd nes cyrraedd yr amodau iawn i grisialau siwgwr ffurfio.

4. Unwaith y bydd y crisialau wedi tyfu bydd y cymysgedd yn cael ei chwyrlio – fel mewn sychwr dillad - i wahanu'r crisialau o weddill y cymysgedd. Yna, bydd y crisialau'n cael eu sychu'n derfynol gydag aer poeth cyn eu cadw ac yna eu hanfon i'w pacio mewn lleoedd megis Craft Aid ym Mauritius.

Photo: Traidcraft/Philip Warren